

Gorffennaf 2016

Annwyl fyfyrwr / rhiant / gwarcheidwad,

**Diwrnod Canlyniadau TGAU - Dydd Iau Awst 25ain:**

Bydd yr ysgol ar agor o 08:30 ar Ddiwrnod Canlyniadau TGAU sef Dydd Iau, Awst 25ain. Dosberthir y canlyniadau yn Neuadd Cilfwnwr. Dyma gyfle i chi sgwrsio gyda tîm o athrawon am eich opsiynau wrth ddychwelyd i'r Chweched Dosbarth. Bydd Mrs Rhiannon Churchill (Swyddog Gyrfau) yno i'ch cynghori hefyd.

**Dechrau Tymor a'r Cwrs Sefydlu:**

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar **Ddydd Llun , Medi'r Sed.**

Bydd trefniadau penodol ar gyfer myfyrwyr ar y diwrnodau cychwynnol. Bydd cyfle iddynt fynd o gwmpas adrannau i sicrhau lleoedd ar gyrsiau, cael cyflwyniad i fywyd yn y Chweched, cofrestru ar gyfer cardiau myfyrwyr yn ogystal ag ymweld ag Ysgol Gyfun Gŵyr, os ydy myfyrwyr yn dilyn cyrsiau yno.

Ar ddydd **Mawrth, Medi'r 6<sup>ed</sup> a dydd Mercher, Medi'r 7<sup>ed</sup>**, cynhelir Cwrs Sefydlu yn arbennig ar gyfer y Chweched. Pwrpas y cwrs fydd eich croesawu chi, fyfyrwyr hŷn yr ysgol, i fywyd yn y Chweched Dosbarth gan roi cyfle i chi hefyd ddod i adnabod eich tiwtoriaid personol newydd, cymdeithasu gyda myfyrwyr Chweched Dosbarth ysgolion eraill tra'n cael blas a rhagarweiniad i fywyd fel aelod o'n Chweched Dosbarth. Cynhelir y cwrs ym Mhrifysgol y Drindod Dewi Sant yng Nghaerfyrddin lle y byddwch yn aros dros nos. Cynhelir gweithgareddau amrywiol a byddwn yn dychwelyd i'r ysgol erbyn amser arferol y bysiau ar ddydd Mercher. Bydd mwy o fanylion am y Cwrs Sefydlu yn dilyn ar ddydd Iau y 25<sup>ain</sup> o Awst. Hyfryd fyddai gweld POB myfyrwr yn mynychu'r cwrs.

**Tîm y Chweched:**

Mae tîm penodol o diwtoriaid ar gyfer y Chweched hefyd a chewch gyfle ar y Cwrs Sefydlu i ddod i'w hadnabod nhw'n well. Cofiwch y bydd grwpiau tiwtorial y Chweched dipyn yn llai nag oedd dosbarthiadau cofrestru bl 7 – 11 ac felly byddant yn fwy personol o ran naw. Bydd gan bob un fentor personol hefyd.



**YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE**  
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601  
E-Bost: [YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
Pennaeth: Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR  
MEWN POBL**

Aur

### Gwisg y Chweched:

Bydd modd prynu gwisg ysgol Chweched Bryn Tawe yn yr un modd â gwisg ysgol blynyddoedd iau yr ysgol sef trwy Swyddfa'r Ysgol (Cyswllt - Mrs Margaret Bartlett).

Manylion y wisg – *Crys gwyn*

*Siwmpwr ddu benodol a bathodyn y Chweched Dosbarth arni*

*Trowsus du plaen neu sgert ddu o hyd addas (i'w prynu'n annibynnol)*

*Esgidiau du*

*Gwisg Addysg Gorfforol* – fel y blynyddoedd iau, er bydd tracwisg ar gyfer myfyrwyr a fydd yn dilyn cyrsiau'r Adran Addysg Gorfforol. (manylion gan yr Adran Addysg Gorfforol ym mis Medi).  
Diwrnodau prynu'r wisg : Diwrnod Canlyniadau TGAU sef **Dydd Iau, Awst 25<sup>ain</sup>**.

### LCA Lwfans Cynhaliaeth Addysg neu'r EMA (Education Maintenance Allowance):

Gallwch ennill hyd at £1,500 y flwyddyn gyda LCA os byddwch yn parhau i ddilyn cwrs addysg bellach. Mae hyn yn ddibynnol ar incwm eich rhieni/gwarcheidwaid. Mrs Susan Lewis fydd yn gyfrifol am geisiadau yn yr ysgol.

Yn gywir,

Mr Ben Davies

*Ben Davies  
Pennaeth Y Chweched / Head of Sixth Form  
Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwyrosydd  
Penlan  
Abertawe  
SA5 7BU  
01792 560600 / [ygb-bsd@bryntawe.swansea.sch.uk](mailto:ygb-bsd@bryntawe.swansea.sch.uk)*



YSGOL GYFUN GYMRAEG BRYN TAWE  
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffon: (01792) 560600 Ffacs: (01792) 560601  
E-Bost: [YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:YGG.Bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
Pennaeth: Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR  
MEWN POBL

Aur